HELPWCH NI
I'CH HELPU CHI

GIG CYMRU NHS WALES

Y Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau

Cymorth gyda'ch meddyginiaeth ar ôl gadael yr ysbyty

Ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, bydd eich fferyllfa gymunedol...

- Yn adolygu'ch nodiadau rhyddhau o'r ysbyty, ac yn sicrhau bod gennych pob meddyginiaeth rydych ei hangen a'ch bod wedi peidio â chymryd unrhyw feddyginiaeth nad ydych ei hangen mwyach.
- Yn gweithio gyda'ch meddyg teulu i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch presgripsiwn rheolaidd.
- Yn esbonio beth mae'ch meddyginiaethau'n ei wneud a sut i'w defnyddio'n fwyaf effeithiol.
- Yn trefnu ymgynghoriad dilynol gyda chi i sicrhau bod eich meddyginiaethau'n gweithio'n dda i chi ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am feddyginiaethau.

Bydd angen i chi wneud y canlynol...

- Yn yr ysbyty, cadarnhau pa fferyllfa gymunedol sy'n cyflenwi'ch meddyginiaeth a chytuno y caiff yr ysbyty rannu gwybodaeth am eich meddyginiaethau â'ch fferyllfa.
- Pan fyddwch gartref, dweud wrth eich fferyllfa leol eich bod wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar ac yr hoffech gael "adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau".
- Os yw'n bosibl, mynd â'r llythyr rhyddhau a gawsoch gan yr ysbyty gyda chi.

Wyddoch chi?

Os ydych ar fin treulio cyfnod yn yr ysbyty, gallwch siarad â'ch fferyllfa gymunedol ynglŷn â chofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn ymlaen llaw.

Os gwnewch hynny, bydd eich fferyllfa'n cael copi o wybodaeth am eich triniaeth a'ch meddyginiaethau i'w hadolygu pan gewch eich rhyddhau.

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau yn cynnig llawer o fanteision i gleifion a'r GIG, a gall helpu i leihau gwastraff, camgymeriadau presgripsiynu ac aildderbyniadau i'r ysbyty. Siaradwch â'ch fferyllfa gymunedol leol am y gwasanaeth hwn a'i fanteision posibl i chi.

Sganiwch yma i gael gwybod mwy am y Gwasanaeth:

Neu ewch i:
www.youtube.com/watch?v=sf2QnoX3zZw

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48285.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.